HEDDWCH A DIOGELWCH RHYNGWLADOL

THE ROYAL BRITISH LEGION

1

2

3

Photograph courtesy of the Imperial War Museum, London (Land 02 012 0844)

4

5

1 Teuluoedd yn Kosovo yn derbyn cymorth y CU

2 Mae'n hawdd adnabod Milwyr y CU drwy eu helmedau a berets glas

3 Milwr y CU yn gwarchod

4 Mae'r Llu Cymorth Diogelwch Rhyngwladol (ISAF) yn gyrch diogelwch dan arweiniad NATO yn Affganistan sefydlwyd gan Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig ar 20 Rhagfyr 2001

5 Lluoedd y CU yn gweithio gyda chymunedau lleol

Am fwy o wybodaeth ewch i
www.un.org/aboutun/
www.nato.int/

Fel aelod o'r Cenhedloedd Unedig a NATO, bu Prydain yn ymglymedig mewn ystod eang o weithgareddau cadw heddwch a lluoedd aml-genedlaethol.

Y Cenhedloedd Unedig

Sefydlwyd y Cenhedloedd Unedig (CU) yn swyddogol ym 1945 ac ar y dechrau roedd gan y sefydliad 50 o aelodau. Erbyn heddiw mae 192 o wledydd yn aelodau. Mae siarter y CU yn amlinellu'r egwyddorion sylfaenol er mwyn i bob un o'r gwledydd hyn gydweithredu a chydweithio â'i gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

"sefydlu amodau fel y gellir cynnal cyfiawnder a pharchu'r ymrwymiadau sy'n codi o gytundebau a ffynonellau eraill o gyfraith ryngwladol, uno ein cryfder i gynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol, a sicrhau, drwy dderbyn egwyddorion a sefydlu dulliau, na fydd y lluoedd arfog yn cael eu defnyddio, ac eithrio er budd pawb."

Mae'r CU yn sefydliad gwirfoddol sy'n dibynnu ar ymrwymiad ei aelod-wledydd (Gwladwriaethau). Nid oes ganddo ei luoedd arfog ei hun, felly os gwneir penderfyniad gan Gyngor Diogelwch y CU neu Gynulliad Cyffredinol y CU (y ddau brif gorff sy'n gwneud penderfyniadau), bydd gweithredu'r penderfyniad hwnnw yn ddibynnol ar ymrwymiad yr Aelod-wladwriaethau. Os gwneir penderfyniad sy'n gofyn am weithredu milwrol, bydd angen ymrwymiad lluoedd arfog yr holl aelod-wladwriaethau (192 ohonynt).

Cadw heddwch a chefnogaeth filworol ar gyfer y CU

Y math cyntaf o benderfyniad a olygai fod y DU yn anfon lluoedd i gefnogi un o Fyddinoedd y CU oedd Rhyfel Corea (1950–1953). Ers hynny, mae dynion a merched y Lluoedd Prydeinig wedi cynorthwyo'r CU yn ei ymgyrchoedd cadw heddwch ym mhob cwr o'r byd – yn aml mae'r rhain yn ddigwyddiadau nad ydym yn clywed amdanynt gan fod presenoldeb a dewrder y bobl hyn yn rhwystro mwy o wrthdaro a marwolaethau.

Sefydliad Cytundeb Gogledd yr Iwerydd (NATO)

Sefydlwyd NATO ym mis Ebrill 1949 gan wledydd o Ewrop a Gogledd America ac mae ganddo swyddogaeth filwrol a gwleidyddol. Cafodd ei greu yn wreiddiol fel ymateb i'r Rhyfel Oer, rhwng yr Undeb Sofietaidd a'r Gorllewin, a ddatblygodd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Yn dilyn cwymp yr Undeb Sofietaidd, mabwysiadodd NATO rôl fwy rhyngwladol a chynyddodd nifer ei aelodau. Ym 1999, fel rhan o ymgyrch NATO, ymyrrodd y Lluoedd Prydeinig yn y Balcannau i atal y glanhau ethnig oedd yn digwydd yn Kosofo.

Ar hyn o bryd mae personél y Lluoedd Prydeinig yn Afghanistan fel rhan o Gorfflu Cymorth Diogelwch Rhyngwladol NATO, sef ISAF. Mae mwy na 350 o ddynion a merched y Lluoedd Prydeinig wedi cael eu lladd yn y gwrthdaro yn Afghanistan a bron i 2,000 ohonynt wedi eu niweidio, yn cynnwys 486 o rai yn dioddef o anafiadau difrifol neu hynod ddifrifol (ffynhonnell: www.mod.uk/ ar Ionawr 2011).